

Why we ask some people not to give blood

This leaflet aims to explain why we ask some people not to give blood, and how this improves the safety of blood transfusion.

The UK Blood Transfusion Services are responsible for making blood transfusion as safe as possible for all patients and so we follow strict rules and regulations when collecting and processing blood.

There are two main areas that affect blood safety:

1. Selecting 'safe' donors
2. Testing every donation

Selecting 'safe' donors means that we have to ask some people not to donate their blood, sometimes for a length of time, sometimes for the rest of their lives. This could be for many reasons, including their lifestyle and their medical or travel history.

There are over 450 'rules' guiding donor selection in the UK and every time you come to donate you will be asked a number of general questions about your health and lifestyle. We try to make decisions based on the individual circumstances of each donor so please give us as much honest information as possible.

The principles of selecting donors

We know people who volunteer to donate blood do so with the very best of intentions, but there are people who, for various reasons, we ask not to donate either for a short period of time or forever.

This request can be very upsetting to some people but our decisions are not taken lightly. They are based on the information and research that is available to us about different medical conditions, therapeutic drug effects, personal experiences (including travel abroad) and lifestyles. We also have to consider the effects our policies will have on patients who need blood.

People who we ask not to donate blood have the right to a clear explanation and this leaflet aims to explain some of our rules.

The aims of our donor selection rules are to:

1. Select donors whose blood, as far as we can tell, is unlikely to transmit any infection to patients.
2. Collect enough blood to meet patients' needs.
3. Make sure that donors themselves come to no harm through giving blood.

We have to balance these aims while also keeping the selection process clear and simple. The rules are regularly reviewed and changed when necessary, when the evidence on which they are based changes.

Why some people can never give blood?

Some people may be at increased risk of blood-borne infections that could harm patients. For example, injecting drugs is known to be associated with an increased risk of infections so we ask anyone who has ever injected drugs never to give blood. We test all blood donations for some important infections e.g. HIV, hepatitis B, C and E, syphilis and HTLV. However, we cannot test for every infection that exists. For some infections there is no test available. Also there may be viruses around that we don't yet know about because they have not been identified. No testing process can be perfect. We may miss infected donations because of the 'window period' between the person getting an infection and the test showing a positive result. There is also a very small risk of mistakes being made in the laboratory.

To reduce the risk of passing on any of these infections we rely on you to answer our questions accurately and, when necessary, not to give blood.

We also ask people who have had a transfusion, or for whom there is a strong likelihood that they have had a transfusion, since January 1980 not to give blood. This is because at the end of 2003 we discovered that it is possible that variant Creutzfeldt-Jacob Disease (vCJD) may be transmitted by blood transfusion. There is no test for this condition.

Why some people are told not to give blood for at least 3 months

People whose behaviours are known to be associated with an increased risk of certain infections e.g. a high risk sexual practice will be asked to wait for 3 months after stopping the high risk activity before donating. This gives the person plenty of time to develop strong markers in their blood that our tests will usually detect.

Why am I sometimes accepted but at other times asked not to give blood?

This may be because something has changed in your lifestyle, or because our rules or testing procedures have changed. Please discuss this with the nurse if you would like to.

If I am asked not to give blood, does that mean that you think I have an infection?

No. Most people are not carrying harmful infections, but our questions may identify that they are at an increased risk. We cannot afford to take this risk.

Can I give blood if I have a negative HIV result from my doctor?

Not necessarily. This is because we need to select donors who have no known increased risk of blood-borne infections in general. If you have had the test for a particular reason it may be possible to give blood after a detailed consultation with one of our doctors.

Are there ever any exceptions to the rules?

Our selection procedure screens out people whose experiences may mean that they have an increased risk of carrying a blood-borne infection so it is safest to ask these people not to give blood.

If you think you are affected by these restrictions, but feel that they do not strictly apply to you, please ask to speak to a member of our staff. It may be possible to make exceptions very occasionally, but please discuss this with us first.

If you would like more information please contact:

**The Medical Director
Welsh Blood Service
Ely Valley Road, Talbot Green
Pontyclun CF72 9WB
Telephone: Freephone 0800 252 266**



**Welsh Blood Service
0800 252266
welshblood.org.uk**

Rhoddwyr diogel, gwaed diogel

Pam fod Gwasanaeth
Gwaed Cymru yn gofyn
i rai rhoddwyr i beidio â
rhoi gwaed



**gwaedcymru.org.uk
0800 252266**

Dilynwch ni



Pam rydym yn gofyn i rai pobl beidio â rhoi gwaed

Nod y daflen hon yw esbonio pam rydym yn gofyn i rai pobl beidio â rhoi gwaed a sut y mae hyn yn gwella pa mor ddiogel yw trallwysiad gwaed.

Mae Gwasanaethau Trallwysio Gwaed y DU yn gyfrifol am sicrhau bod trallwysiad gwaed yn y DU mor ddiogel â phosibl ar gyfer pob claf. Felly rydym yn dilyn rheolau a rheoliadau caeth pan fyddwn yn casglu ac yn prosesu gwaed.

Mae dau brif faes sy'n effeithio ar ddiogelwch gwaed:

1. Dewis rhoddwyr 'diogel'
2. Profi pob rhodd

Mae dewis rhoddwyr 'diogel' yn golygu bod yn rhaid i ni ofyn i rai pobl beidio â rhoi eu gwaed, weithiau am gyfnod o amser, weithiau am weddill eu bywydau. Gallai hyn fod am sawl rheswm, yn cynnwys eu ffordd o fyw a'u hanes meddygol neu eu hanes teithio.

Mae dros 450 o 'reolau' yn ymwneud â dewis rhoddwr yn y DU, a phob tro y byddwch yn dod i roi gwaed, byddwn yn gofyn ychydig o gwestiynau cyffredinol i chi am eich iechyd a'ch ffordd o fyw. Rydym yn ceisio gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob rhoddwr, felly ceisiwch roi cyn gymaint o wybodaeth onest â phosibl i ni.

Egwyddorion dewis rhoddwyr

Rydym yn gwybod bod pobl sy'n gwirfoddoli i roi gwaed yn gwneud hynny gan eu bod yn awyddus i helpu, ond yn anffodus, gofynnir i rhai pobl, am amrywiaeth o resymau, i beidio â rhoi gwaed naill ai am gyfnod byr neu am byth.

Gall cais o'r fath beri gofid i rai pobl ond rydym yn cymryd y penderfyniadau o ddifrif. Maent yn seiliedig ar y wybodaeth a'r ymchwil sydd ar gael i ni am wahanol gyflyrau meddygol, effeithiau cyffuriau therapiwtig, profiadau personol (gan gynnwys teithio dramor) a ffyrdd o fyw. Hefyd, mae'n rhaid i ni ystyried effeithiau ein polisiau ar gleifion y mae angen gwaed arnynt.

Mae gan y bobl rydym yn gofyn iddynt beidio â rhoi gwaed hawl i gael esboniad eglur a nod y daflen hon yw esbonio rhai o'n rheolau.

Nodau ein rheolau dewis rhoddwyr yw:

1. Dewis rhoddwyr y mae eu gwaed, cyhyd ag y gwyddom, yn annhebygol o drosglwyddo unrhyw haint i gleifion.
2. Casglu digon o waed i ddiwallu anghenion cleifion.
3. Sicrhau nad yw'r rhoddwyr eu hunain yn dioddef unrhyw niwed drwy roi gwaed.

Mae'n rhaid i ni gydbwysu'r nodau hyn a chadw'r broses ddewis yn glir ac yn syml. Mae'r rheolau'n cael eu hadolygu a'u newid yn rheolaidd yn ôl yr angen, pan fydd y dystiolaeth maen nhw'n seiliedig arno, yn newid.

Pam na all rhai pobl fyth roi gwaed?

Gall pobl wynebu mwy o risg o gael haint a gaiff ei gario yn y gwaed a allai niweidio cleifion. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod chwistrellu cyffuriau yn gysylltiedig â mwy o risg o gael heintiau felly rydym yn gofyn i bobl sydd wedi chwistrellu cyffuriau ar unrhyw adeg i beidio â rhoi gwaed byth. Rydym yn profi pob rhodd o waed am heintiau pwysig, megis HIV, hepatitis B, C ac E, syffilis ac HTLV. Fodd bynnag, ni allwn brofi am bob haint sy'n bodoli. Nid oes prawf ar gyfer rhai heintiau. Hefyd, gallai fod firsau nad ydym yn ymwybodol ohonynt hyd yn hyn gan nad ydynt yn hysbys i ni. Ni all unrhyw broses brofi fod yn berffaith. Efallai y byddwn yn methu â chanfod rhai rhoddion heintiedig oherwydd y bwlch amser rhwng cael haint a'r adeg y mae'r prawf yn dangos canlyniad positif. Hefyd, mae yna risg fach iawn o gamgymeriadau yn cael eu gwneud yn y labordy.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r rhain, rydym yn dibynnu arnoch i ateb ein cwestiynau'n gywir a, phan fydd angen, i beidio â rhoi gwaed.

Rydym hefyd yn gofyn i bobl sydd wedi cael trallwysiad, neu sy'n debygol iawn o fod wedi cael trallwysiad, ers mis Ionawr 1980 i beidio â rhoi gwaed. Mae hyn oherwydd ein bod wedi canfod ar ddiwedd 2003 ei bod yn bosibl i Afiechyd amrywiolyn Creutzfeldt- Jacob (vCJD) gael ei drosglwyddo drwy drallwysiad gwaed. Nid oes prawf ar gyfer y cyflwr hwn.

Pam y dywedir wrth rai pobl am beidio â rhoi gwaed am o leiaf 3 mis

Gofynnir i bobl sydd â risg uwch o gael heintiau penodol, e.e. gweithgarwch rhywiol risg uchel, aros am 3 mis ar ôl stopio'r gweithgarwch rhywiol risg uchel cyn rhoi gwaed. Mae hyn yn rhoi digon o amser i'r person ddatblygu dangosyddion cryf yn eu gwaed y bydd ein profion yn eu canfod fel arfer.

Pam y caf fy nerbyn i roi gwaed weithiau ond ddim ar adegau eraill?

Gallai hyn fod oherwydd bod rhywbeth wedi newid o ran eich ffordd o fyw, neu oherwydd bod ein rheolau neu'n gweithdrefnau profi wedi newid. Trafodwch hyn gyda'r nyrs os byddwch yn dymuno.

Os gofynnir i mi beidio â rhoi gwaed, a yw hyn yn golygu eich bod yn credu bod gennyf haint?

Nac ydy. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn cario heintiau niweidiol, ond gallai ein cwestiynau awgrymu eu bod yn wynebu mwy o risg. Mae'n well gennym beidio â chymryd y risg.

A allaf roi gwaed os caf ganlyniad HIV negyddol gan fy meddyg?

Ddim o reidrwydd. Mae hyn oherwydd bod angen i ni ddewis rhoddwyr nad ydynt yn wynebu mwy o risg o gael heintiau a gaiff eu cario yn y gwaed yn gyffredinol. Os byddwch yn cael y prawf am reswm penodol, gallai fod yn bosibl i chi roi gwaed ar ôl ymgynghoriad manwl gydag un o'n meddygon.

A oes unrhyw eithriadau i'r rheolau?

Mae ein gweithdrefn ddethol yn sgrinio pobl y gallai eu profiadau olygu eu bod yn wynebu mwy o risg o fod â haint a gaiff ei gario yn y gwaed, felly mae'n fwy diogel gofyn i'r bobl hyn i beidio â rhoi gwaed.

Os credwch fod y cyfyngiadau hyn yn effeithio arnoch, ond eich bod yn teimlo nad ydynt yn gwbl berthnasol i chi, gofynnwch i gael siarad ag aelod o'n staff. Gallai fod yn bosibl gwneud eithriadau yn achlysurol iawn, ond trafodwch hyn gyda ni yn gyntaf.

Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Y Cyfarwyddwr Meddygol
Gwasanaeth Gwaed Cymru
Heol Cwm Elái
Tonysguboriau
Pontyclun CF72 9WB
Ffôn: Rhadffon 0800 252 266**



**Gwasanaeth Gwaed Cymru
0800 252266
gwaedcymru.org.uk**

Safe donors, safe blood

Why the Welsh Blood Service asks some donors not to give blood



**welshblood.org.uk
0800 252266**



Follow us on

